

Cyfarfod Prifysgol Dementia Gyfeillgar

29 Hydref 2020, 3:30yp, Zoom

Presennol: Catrin Hedd Jones – Cadeirydd (CHJ); Kat Algar-Skaife (KAS); Glenda Roberts (GR); Jayne Goodrick (JG); Chris Roberts (CR); Anna Story (AS); Gaz Williams (GW); Katie Tew (KT); IS (nodiadau).

Ymddiheuriadau: Gill Windle; Ian Davies-Abbott; Shari Llewelyn; Sharon Roberts; Hayley Hogan; Jen Roberts; Karen Beattie; Rob Beattie; Ronnie Dean; Lizzie Dean.

Eitem	Sgwrs	Gweithred
1.	Croeso, Ymddiheuriadau a Chofnodion y cyfarfod diwethaf 29/01/2020:	
a/	Croesawodd CHJ bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau.	
b/	Cofnodwyd ymddiheuriadau.	
c/	<p><i>Camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:</i></p> <ul style="list-style-type: none">• <i>Diwrnod Chwaraeon Rhwng Cenedlaethau:</i> wedi'i ohirio.• <i>Grŵp Caban:</i> yn dilyn y cyfarfod cychwynnol yn Llanberis wedi cyfarfod ym Mhrifysgol Bangor ac ar-lein yn ystod y cyfnod dan glo.• <i>Cyfle am Sgwrs:</i> dim cyswllt yn ystod y cyfnod dan glo.• <i>Ffrindiau Dementia:</i> cynhelir y sesiwn ar-lein 03/11/2020. Tua 300 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf Ysgol Gwyddorau Iechyd. Anfonir 'Sway' a sleidiau atynt ymlaen llaw i gefnogi eu dealltwriaeth. Bydd unrhyw ffrindiau newydd yn gallu hawlio 5 pwynt gwobr cyflogadwyedd Bangor gydag unrhyw Hyrwyddwyr yn gymwys am 10 pwynt a bydd hyn yn cael ei hyrwyddo. Hefyd yn cynnwys dolenni i'r cyfrifon Facebook a Twitter.• <i>Can y Gân:</i> Mae Alistair wedi dechrau ar ei gwrs hyfforddi i fod yn athro rwan ac nid yw'n aelod o'r Brifysgol mwyach, cyn y cyfnod dan glo fe siaradodd â rhai o'r myfyrwyr cerddoriaeth cyfredol i weld a oedd unrhyw ddiddordeb mewn gwneud gwaith cerdd gyda Chaffi Hafan ym Mangor. Wedi'i ohirio oherwydd y cyfnod dan glo.• <i>Digwyddiad Dementia Prin:</i> Wedi'i ohirio oherwydd y cyfnod dan glo. <p>Derbynnir y cofnodion fel cofnod cywir. IS i'w atodi ar y dudalen we.</p>	IS
2.	Diweddariadau:	
a/	COVID-19:	
	Roedd CHJ yn cydnabod nad yw'r sefyllfa'n ddelfrydol ond gwerthfawrogwn ymdrechion pawb i gwrdd ar-lein.	
b/	Cyfyngau cymdeithasol:	
	<p>Rhwydwaith Dementia Gogledd Cymru: 504 aelod.</p> <p>109 Dilynwyd Facebook DFU (https://www.facebook.com/Dementia-Friendly-Bangor-University-379800496079222/)</p> <p>116 Dilynwyd Twitter DFU (https://twitter.com/DementiaUni)</p> <p>Awgrymodd CR y dylid cynnwys dolenni i dudalen Bangor sy'n Gyfeillgar i Dementia ar y Tudalen Rhwydwaith Dementia.</p>	

Eitem	Sgwrs	Gweithred
	<p>Cafwyd trafodaeth ynghylch cynyddu niferoedd. Awgrymir cysylltu â Ffrindiau Dementia, gall UM helpu trwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr Undeb. Unrhyw beth yr ydym am ei hysbysebu gallwn anfon lluniau a rhywfaint o destun at UM.</p> <p>Nawr ein bod wedi colli ein Cynrychiolydd Myfyrwyr mae angen mwy o fyfyrwyr i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio fel ffordd o ymgysylltu mwy trwy'r UM. Nid oes gennym dudalen Instagram DFU, byddai KT yn hapus i rannu gwybodaeth ar Instagram. Dywedodd KT fod ochr y gwirfoddolwyr yn rhedeg y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Pe bai myfyrwyr newydd yn ymuno â'r grŵp llywio y gallent gefnogi codi ymwybyddiaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â DFU. Gall GW a KT hyrwyddo hyn, byddai angen disgrifiad rôl, dwy neu dair llinell ynghyd â llun. Byddai'r holl ymatebion yn mynd at GW ac yna gellid sefydlu panel. GR, CR a JI i'w cynnwys yn y panel. Mae'n debyg y byddai'r myfyrwyr gwirfoddol yn eithaf nerfus, felly byddai'r 'cyfweliad' yn anffurfiol iawn. Roedd y Grŵp yn hapus i'r recriwtio gael ei wneud trwy'r UM. CHJ i anfon testun disgrifiad rôl / llun at GW / KT.</p>	CHJ
c/	PONTIO:	
	<p><i>Archwiliad:</i> disgwyl am adborth o'r ddogfennau archwilio sydd wedi'u cwblhau.</p> <p>Rhoddodd GW ddiweddariad byr ynglŷn â PONTIO mewn perthynas â'r ailstrwythuro.</p>	
d/	Undeb y Myfyrwyr:	
i/	<p>Wedi ceisio addasu prosiectau er mwyn peidio â cholli cysylltiad â phobl yn y gymuned.</p> <p><i>Prosiect PenPal:</i> gwirfoddolwyr a hoffai ysgrifennu llythyrau i'r gymuned leol, gan ysgrifennu llythyrau mewn gobaith y bydd yn gyfathrebiad cyson. Os yw hyn yn rhywbeth yr hoffai unrhyw un gymryd rhan ynddo, maen nhw ar hyn o bryd yn edrych i'r gymuned i gymryd rhan ynddo. Gallai hyn hefyd barhau ar ôl Covid-19.</p>	
ii/	<i>GenCon:</i> wedi'i ohirio ar hyn o bryd.	
iii/	<p><i>Get There Together:</i> menter cenedlaethol, rhoddodd AS drosolwg o'r prosiect. Roedd Mirain wedi anfon e-bost yn ei gylch at GW, rhywbeth da i'r myfyrwyr gymryd rhan ynddo. Mae gan UM gymdeithas ffilm a fyddai'n awyddus i gymryd rhan. Bydd CHJ yn anfon ymlaen y daflen gan Mirain at KT i'w hanfon ymlaen i'r gymdeithas ffilm.</p>	CHJ / KT
e/	Cymdeithas Alzheimer:	
	<p>Cyfarfu CR / JG â Kate Lee, Prif Swyddog Gweithredol newydd Cymru, wrth iddi gasglu eu barn ar ba bethau y maent yn credu y dylai'r Gymdeithas Alzheimer ganolbwyntio arnynt. Trafodwyd ychydig o bethau sy'n digwydd.</p> <p>Cynigiodd Hayley anfon diweddariad at KAS, ar ôl ei dderbyn gellir ychwanegu at y cofnodion. Dylid anfon unrhyw beth a fyddai o ddiddordeb i Hayley ymlaen ati.</p>	HH

Eitem	Sgwrs	Gweithred
3.	Adolygu Cynnydd yn Erbyn Cynllun Gweithredu:	
	Codi ymwybyddiaeth o fewn y Brifysgol. Gwella presenoldeb ar-lein. Ar ôl cynnal sesiwn ar-lein yr wythnos nesaf, gallwn edrych i weld a ellir ei ymestyn ymhellach. Awgrym y dylid recordio'r sesiynau. Gweithrediad ar gyfer CHJ a KAS .	CHJ / KAS
	Dangos fideos o 'Friendly Face' a 'Gobaith Mawr y Gwanwyn' i fyfyrwyr, fel y gallant weld bod pobl sy'n byw gyda dementia yn byw bywyd ac nad ydyn nhw i gyd mewn Cartrefi Nyrsio. Bydd KT yn hyrwyddo'r fideos ar Instagram. CHJ i gyfeirio KT at y fideos. Gellid ychwanegu animeiddiad CADR hefyd.	KT /CHJ
4.	Unrhyw fater arall:	
a/	<i>Sesiwn Ffrindiau Dementia i'r grŵp Gweithredu:</i> Roedd JH o'r farn y byddai'n werth cysylltu â'r Is-Ganghellor, gan awgrymu cysylltu â Bethan Nelson yn y lle cyntaf. Bydd CHJ yn cysylltu.	CHJ
b/	<i>Care Home Christmas Card Challenge:</i> Bydd JG yn anfon llun o'r wybodaeth at IS i'w chylchredeg o amgylch y Grŵp Llywio.	JG / IS
c/	Cyflwynodd CR a JG yng Nghynhadledd Alzheimer Europe, awgrymiadau i osod dogfennau y byddwch yn darllen ohonynt i'r sgrin ychydig o dan y camera, er mwyn peidio ag edrych i lawr o'r camera. Mae yna hefyd App Auto Cue ar gael i'w lawrlwytho o'r enw 'dv Prompter'.	
d/	Llongyfarchiadau i CR sydd wedi'i benodi'n Gadeirydd Gweithgor Ewropeaidd Pobl â Dementia (EWGPWD) .	
e/	Trosglwyddodd y Grŵp Llywio eu dymuniadau gorau i Teresa a'i theulu.	
5.	Dyddiad y cyfarfod nesaf:	
	27 Ionawr 2021, 2:00yp – 5:00yp, dros Zoom.	
DIWEDD Y CYFARFOD		